# Datganiad Derbyn: Baglor mewn Gwyddor Milfeddygaeth - BVSc

## 1. Cyffredinol

### Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn ymdrin â'r radd Baglor mewn Gwyddor Milfeddygaeth (BVSc) a gynigir ar y cyd gan y Coleg Milfeddygol Brenhinol (RVC) a Phrifysgol Aberystwyth (PA).

### Pwrpas

Mae'r Coleg Milfeddygol Brenhinol (RVC) a Phrifysgol Aberystwyth (PA) wedi ymrwymo i dderbyn myfyrwyr o safon uchel trwy adnabod teilyngdod a photensial, gan sicrhau bod eu prosesau derbyn yn deg a thryloyw.

Mae'r polisi a'r gweithdrefnau derbyn yn cefnogi nod, gweledigaeth ac amcanion y naill sefydliad a'r llall fel y'u datganwyd yn eu Cynlluniau Strategol. Mae'r ddau sefydliad hefyd yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol ac y maent yn cael eu llywio, fel sy'n berthnasol, gan yr egwyddorion a amlinellir gan y Grŵp Llywio Derbyn i Addysg Uwch, y Swyddfa dros Fyfyrwyr, yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, a chan ddogfen yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd - Cod Ansawdd y DU am Addysg Uwch - Cyngor a Chanllawiau: Derbyn, Recriwtio ac Ehangu Mynediad (2018). Caiff polisïau a gweithdrefnau hefyd eu llywio gan yr egwyddorion a amlinellir gan Goleg Brenhinol y Milfeddygon.

Adolygir y polisi a'r gweithdrefnau derbyn yn flynyddol gan Bennaeth Derbyn yr RVC a Dirprwy Gofrestrydd (Derbyn) PA. Lle gwneir newidiadau, bydd y naill sefydliad a'r llall yn cytuno arnynt a chymeradwyir y ddogfen gan y Pwyllgor Rhaglenni trwy Gwrs (TPAC), y Pwyllgor Dysgu ac Asesu (LTAC) a'r Bwrdd Academaidd yn yr RVC, a'r Bwrdd Denu Myfyrwyr a Marchnata a'r Senedd yn PA.

Yn unol â'r argymhellion am arferion gorau, bwriad y ddogfen hon yw rhoi gwybodaeth i ymgeiswyr am y radd Baglor mewn Gwyddor Milfeddygaeth (BVSc) a'r sawl sy'n eu cynghori am y modd mae'r prosesau derbyn yn gweithio am y radd hon, a'r polisïau sydd ar gael ynghylch hyn. Er bod y ddogfen hon yn cynnwys yr holl wybodaeth a'r canllawiau y bydd ar ymgeiswyr eu hangen, yr ydym yn cydnabod yr angen am i'r wybodaeth sydd ynddi fod yn hygyrch ar wahanol gamau siwrne'r ymgeisydd. Felly, yn ogystal â chael ei chyhoeddi yn ei chyfanrwydd, gall rhannau o'r ddogfen hon hefyd gael eu cyhoeddi ar-lein mewn mannau perthnasol er mwyn sicrhau tryloywder a hygyrchedd i bawb.

Lle cyhoeddir rhannau yn annibynnol ar weddill y polisi, byddant yn cael eu diweddaru yn unol ag unrhyw newidiadau i'r brif ddogfen.

## 2. Datganiad Derbyn

Mae'r RVC a PA wedi ymrwymo i redeg proses dderbyn sy'n amlwg yn deg, tryloyw, proffesiynol ac yn seiliedig ar strwythurau sefydliadol priodol a chadarn. Er mai'r RVC sydd yn prosesu ceisiadau am y radd Baglor mewn Gwyddor Milfeddygaeth (BVSc), mae penderfyniadau ynghylch derbyn yn cael eu gwneud ar y cyd, gyda chyfraniadau gan y naill sefydliad a'r llall, ac fe'u seilir ar botensial academaidd, waeth beth fo'r cefndir.

I gefnogi proses dderbyn deg, rydym yn anelu at wneud yr isod:

- sicrhau bod penderfyniadau ynghylch derbyn yn seiliedig ar lwyddiannau a photensial ymgeisydd;
- sefydlu prosesau derbyn teg i sicrhau ansawdd y cyfleoedd addysgol, er ein bod ar yr un pryd wedi ymrwymo i ehangu cyfranogiad, cynyddu amrywioldeb a sicrhau ein bod yn bodloni anghenion proffesiwn milfeddygol Cymru yng Nghymru;
- hyrwyddo prosesau derbyn sy'n golygu y gellir trin bob ymgeisydd unigol yn deg a chyfartal heb gamwahaniaethu'n uniongyrchol nac yn anuniongyrchol;
- rhoi ystyriaeth lawn i geisiadau;
- rhoi ystyriaeth gyfartal i bob cais cyflawn sy'n dod i law erbyn y dyddiadau cau 'mewn-pryd' perthnasol;
- ymdrechu'n wastad i fireinio ein dulliau dethol er mwyn gofalu eu bod yn gwahaniaethu'n deg a rhesymol ymysg myfyrwyr cymwys ar sail eu llwyddiant tebygol ar y cwrs dan sylw;
- gwarantu fod penderfyniadau ynghylch derbyn yn gyson ac y cyflawnir pob cam o'r broses dderbyn gyda gonestrwydd ac uniondeb gan staff priodol sydd ag arbenigedd a gwybodaeth berthnasol a chyfoes;
- sicrhau y rhoddir parch cyfartal i'r llwybrau cymhwyso cyn-Addysg Uwch, boed yn y llwybr traddodiadol neu'n llwybrau eraill, a chydnabod yn llawn ystod eang o gymwysterau – yn rhai rhyngwladol, rhai a seilir ar ofynion mynediad, a rhai galwedigaethol – a dangosyddion potensial eraill.
- sicrhau bod y broses dderbyn yn rhedeg yn effeithiol;
- esbonio'n glir sut yr asesir ceisiadau;
- meithrin cyswllt â chymunedau o ddisgyblion yn allanol er mwyn codi eu huchelgais ac annog disgyblion i sylweddoli nad yw addysg uwch y tu hwnt i'w cyrraedd.
- dogfennu'n glir benderfyniadau ynghylch derbyn.

## 3. Gofyniad Mynediad

Byddwn yn diweddaru ein gofynion mynediad bob blwyddyn mewn ymateb i newidiadau yn y gofynion academaidd. Mae hyn o raid yn golygu nad yw ein gofynion weithiau yn adlewyrchu'r wybodaeth a gyhoeddir ar ffurf copi caled. Argymhellwn felly y dylai ymgeiswyr edrych ar y wybodaeth yn y rhestrau cyrsiau ar ein gwefannau (www.rvc.ac.uk/ a www.aber.ac.uk/cy/vet-sci/bvsc-vet/) fel ffynhonnell y wybodaeth ddiweddaraf. Mae gofynion mynediad academaidd hefyd yn cael eu cyhoeddi ar wefan UCAS www.ucas.com/

Cyhoeddir y gofynion mynediad am y cylch derbyn nesaf i gyrsiau israddedig ar ein gwefannau o fis Mai ymlaen. Wrth gyhoeddi gofynion mynediad mor gynnar, efallai y bydd angen mwy o newidiadau cyn cychwyn y cylch ymgeisio mewn ymateb i newidiadau a ddaw i'r golwg yn ystod cyfnod y canlyniadau. Bydd unrhyw newidiadau i'n gofynion mynediad wedi'u rhoi ar eu ffurf derfynol erbyn dechrau'r cylch ymgeisio (erbyn 31 Awst) ac ni chânt eu newid unwaith i'r cylch ymgeisio gychwyn.

Byddwn yn ystyried ystod eang o gymwysterau i'r rhaglen hon, gan gymryd cyngor a chyfarwyddyd o gynnyrch a chyhoeddiadau ledled y sector megis UK ENIC, y Cyngor Prydeinig a chyhoeddiadau UCAS. Pennir gofynion mynediad ar sail y safon academaidd sydd ei hangen i gwblhau'r cwrs yn llwyddiannus ac fe'u rhoddwyd ynghyd ar sail ein profiad o gymhwyso a llwyddiant myfyrwyr a ddilynodd gyrsiau tebyg yn y gorffennol.

Mae disgwyl i'r holl ymgeiswyr ddangos safon addas o hyfedredd yn yr Iaith Saesneg cyn ymrestru am radd Baglor mewn Gwyddor Milfeddygaeth (BVSc). Gall ymgeiswyr na chyrhaeddodd y safon angenrheidiol adeg ymgeisio dderbyn cynnig sy'n amodol ar ei chyrraedd. Cyhoeddir manylion am y cymwysterau Iaith Saesneg derbyniol a'r lefelau angenrheidiol ar gyfer pob cymhwyster ar ein gwefannau.

**Gofynion penodol**

Fel rheol, disgwylir y bydd ymgeiswyr am radd Baglor mewn Gwyddor Milfeddygaeth (BVSc) wedi'u haddysgu o leiaf i Dystysgrif Addysg Gyffredinol Safon Uwch (TAG Safon Uwch, neu 'Lefel A') neu gymhwyster cyfwerth yn y DU neu'n rhyngwladol a dderbynnir gan yr RVC a Phrifysgol Aberystwyth.

Mae gofyn i bob ymgeisydd fel rheol ddangos safon dda o addysg gyffredinol, sy'n cyfateb fel arfer i basio 5 pwnc TGAU ar raddau 4 neu'n uwch (gradd A* - C i ymgeiswyr o Gymru neu'r sawl a ddechreuodd astudio am eu TGAU cyn Medi 2015). Mae hyn yn cynnwys AA mewn Gwyddoniaeth (Dyfarniad Dwbl)/7-7 mewn Gwyddoniaeth Gyfun, neu Fioleg a Chemeg, neu Wyddoniaeth Ychwanegol a lefelau derbyniol o lythrennedd a rhifedd, sydd fel arfer yn cyfateb i o leiaf Radd 6 (Gradd B) TGAU mewn Mathemateg, ac o leiaf Radd 6 (B) mewn Saesneg (iaith) neu Gymraeg (iaith), gydag o leiaf Radd 4 (C) yn yr ail iaith os cymerwyd Saesneg a Chymraeg.

Cyhoeddir gofynion ychwanegol, megis profiad gwaith, ar ein gwefannau a gwefan UCAS. Bydd ein gwefannau hefyd yn rhoi manylion am sut i ddarparu tystiolaeth o fod wedi bodloni'r gofynion ychwanegol ac unrhyw dyddiad cau erbyn pryd y dylid cyflwyno'r manylion hyn. Bydd disgwyl i ymgeiswyr gadw at y terfynau amser hyn.

Bydd gofyn i'r holl ymgeiswyr am radd Baglor mewn Gwyddor Milfeddygaeth (BVSc) gyflwyno ffurflen ategol yn ychwanegol at eu cais UCAS. Bydd y ffurflen hon ar gael i'w llenwi ar wefan RVC o fis Medi ymlaen a rhaid ei chwblhau erbyn 15 Hydref, sef y dyddiad cau a osodir gan UCAS.

Mae croeso i fyfyrwyr sy'n dilyn cwrs Gateway'r RVC i wneud cais am radd Baglor mewn Gwyddor Milfeddygaeth (BVSc) a dylent wneud hynny trwy UCAS.

Croesewir ceisiadau i ddilyn y cwrs gradd Baglor mewn Gwyddor Milfeddygaeth (BVSc) gan ymgeiswyr sy'n ailsefyll y cyfan neu ran o'u cymwysterau. Dan amgylchiadau o'r fath, rhaid bod wedi cyflawni 7 o'r safonau isafsymiol ar y tro cyntaf y safwyd arholiad y cymhwyster/au, a chaniateir ailsefyll cymwysterau unwaith yn unig fel arfer. Cyhoeddir y safonau isafsymiol hyn ar ein gwefannau.

**Profion Derbyn**

Nid oes angen sefyll profion derbyn ategol i fynd ar y radd Baglor mewn Gwyddor Milfeddygaeth (BVSc)

## 4. Prosesau Ymgeisio

Rhaid gwneud pob cais i'r radd Baglor mewn Gwyddor Milfeddygaeth (BVSc) trwy UCAS a rhaid cadw at ddyddiadau cau 'mewn-pryd' a ddarperir gan UCAS. Bydd yr ymgeiswyr sy'n cyflwyno cais wedi'u cwblhau'n llawn erbyn y dyddiad cau, sef 15 Hydref, yn cael ystyriaeth lawn a chyfartal. Dim ond yr ymgeisiadau sydd wedi'u cwblhau'n llawn, erbyn y dyddiad cau a roddwyd, fydd yn cael eu hystyried fel rhai 'mewn-pryd'. Mae hyn yn cynnwys darparu datganiad personol, llythyrau geirda a'r wybodaeth am eu cymwysterau sydd yn angenrheidiol er mwyn asesu'r cais. Ni fydd ceisiadau hwyr fel arfer yn cael eu hystyried.

Ni chaniateir ceisiadau am drosglwyddo i'r radd Baglor mewn Gwyddor Milfeddygaeth (BVSc) o gyrsiau eraill.

Ni fydd ymgeiswyr a gofrestrwyd ar gwrs o'r blaen a'i fethu fel arfer yn cael eu hail-ystyried i'w derbyn ar yr un cwrs. Ni dderbynnir ceisiadau gan neb a fu gynt yn fyfyriwr naill ai gyda'r RVC neu PA ac y terfynwyd eu cofrestriad fel myfyriwr gyda'r naill sefydliad neu'r llall am droseddau disgyblaethol academaidd nac anacademaidd. Bydd unrhyw geisiadau o'r fath sy'n dod i law yn cael eu gwrthod heb eu hystyried.

### Gohirio Mynediad

Croesewir ceisiadau am y radd Baglor mewn Gwyddor Milfeddygaeth (BVSc) gan fyfyrwyr sydd am gymryd 'blwyddyn allan' ac sydd felly am wneud cais am gael dechrau yn y flwyddyn ddilynol. Bydd ymgeiswyr sy'n gwneud cais am fynediad gohiriedig yn cael eu hystyried gan ddefnyddio'r un meini prawf ag ymgeiswyr am y flwyddyn gyfredol. Bydd disgwyl i'r ymgeisydd gadw at y dyddiadau cau perthnasol am geisiadau a phenderfyniadau yn ystod y cylch derbyn y byddant yn ymgeisio ynddo. Ar ôl i gais am y cwrs gael ei gyflwyno, mae'n rhaid i unrhyw geisiadau am ohirio gael eu gwneud yn ysgrifenedig, ac fe'u hystyrir fesul achos. Ni fydd cynigion am le gohiriedig fel arfer yn cael eu gwneud trwy Glirio oni fydd yr ymgeisydd yn bodloni'r gofynion mynediad safonol a gyhoeddwyd am y cwrs.

Cysylltir ag ymgeiswyr sy'n gwneud cais am fynediad gohiriedig yn y gwanwyn cyn iddynt ddod ar y cwrs a bydd disgwyl iddynt ail-gadarnhau eu dymuniad i dderbyn lle; fel arall, gall eu cais gael ei dynnu'n ôl a'i gynnig i ymgeisydd arall.

Caniateir i ymgeiswyr fel rheol ohirio am un flwyddyn yn unig. Os dymuna ymgeisydd ohirio am ail flwyddyn, bydd gofyn iddynt gyflwyno cais o'r newydd, fel arfer.

## 5. Prosesau Dethol

Croesewir ceisiadau am radd Baglor mewn Gwyddor Milfeddygaeth (BVSc) gan fyfyrwyr sydd ag ystod eang o gymwysterau, boed yn rhai traddodiadol a rhai heb fod yn draddodiadol. Caiff ceisiadau eu hystyried ar sail holistig gyda'r cais yn cael ei ystyried yn ei gyfanrwydd wrth benderfynu cynnig lle i ymgeisydd neu beidio.

Ystyrir pob cais yn gyfartal, yn ôl y meini prawf a bennir ar gychwyn y flwyddyn dderbyn. Wrth asesu addasrwydd academaidd a photensial ymgeiswyr i'r radd Baglor mewn Gwyddor Milfeddygaeth (BVSc), byddwn yn ystyried y wybodaeth isod, fel y'i darperir ar y ffurflen gais a Ffurflen Ategol yr Ymgeisydd :

• Cyrhaeddiad mewn cymwysterau a ddyfarnwyd;

• Cyrhaeddiad a ragfynegir i gymwysterau sy'n cael eu hastudio;

• Profiad gwaith a wnaed;

• Datganiadau personol/cefnogi;

• Llythyrau geirda.

Defnyddir data cyd-destunol am yr ysgol a fynychwyd a chyfranogiad mewn addysg uwch (POLAR4) fel rhan o'r broses ddethol am y radd Baglor mewn Gwyddor Milfeddygaeth (BVSc). Hefyd, fe allwn gynnwys cymwysterau diwylliant Cymru a'r Gymraeg fel rhan o'r meini prawf asesu.

Bydd gofyn i bob ymgeisydd ddod i gyfweliad.

**Cynigion**

Fel rheol bydd y cynigion a wneir i ymgeiswyr yn unol â'r cynnig safonol cyhoeddedig am radd Baglor mewn Gwyddor Milfeddygaeth (BVSc) ac ni fyddant yn amrywio'n sylweddol o hyn. Gellir addasu lefel y cynnig er mwyn rhoi ystyriaeth i amgylchiadau'r unigolyn, lle na all ymgeisydd gyrraedd y cynnig safonol cyhoeddedig. Gwneir pob penderfyniad ynghylch derbyn myfyrwyr ar y cyd, gyda chyfraniadau gan yr RVC a PA.

Bydd yr holl ymgeiswyr sy'n llwyddo i gael cynnig lle yn cael eu hysbysu yn ysgrifenedig (naill ai trwy e-bost neu lythyr) gan Swyddfa Dderbyn yr RVC. Cynnig lle ffurfiol yw hwn, a ffurfir contract cyfreithiol rhwng yr ymgeisydd a'r RVC a PA ar sail telerau ac amodau'r cynnig. Bydd yr ymgeiswyr sy'n cael cynnig lle yn cael dyddiad cau erbyn pryd y bydd angen bodloni amodau'r cynnig. Os digwydd i'r ymgeisydd beidio â bodloni'r amodau erbyn y dyddiad a nodwyd, efallai na fydd modd cadw'r cynnig lle ar agor.

Gwneir pob cynnig yn amodol ar gael sêl bendith Iechyd Galwedigaethol (IG) ac ni chaniateir i ymgeiswyr ymrestru os nad ydynt wedi cwblhau'r broses Iechyd Galwedigaethol a chael cadarnhad o'u ffitrwydd i astudio. Anfonir holiadur at yr ymgeiswyr gan ein partner Iechyd Galwedigaethol, yn ystod y broses dderbyn, ar ôl iddynt gadarnhau eu bod yn derbyn y cynnig lle.

Gall ymgeiswyr sy'n methu â bodloni amodau eu cynnig o dipyn bach gael eu hystyried adeg y 'Cadarnhau' os bydd lle ar gael ar y cwrs, ar ôl i'r sawl wnaeth fodloni eu cynnig gael eu derbyn. Fel rheol, ni fydd ymgeiswyr sy'n methu â chyrraedd isafswm y gofynion mynediad yn cael eu derbyn (gweler y gofynion mynediad).

Gall ymgeiswyr gyda chymwysterau sy'n is na'r gofynion mynediad safonol cyhoeddedig gael eu hystyried adeg y 'Clirio', os bydd llefydd gwag ar gael o hyd ar y cwrs.

**Cyfweliadau**

Mae angen cyfweliad fel rhan o'r broses ddethol am radd Baglor mewn Gwyddor Milfeddygaeth (BVSc) ac fe'u cynhelir ym Mhrifysgol Aberystwyth. Gall cyfweliadau gael eu cynnig ar-lein dan amgylchiadau eithriadol, er enghraifft, yn ystod cyfyngiadau COVID-19 neu lle mae gan ymgeiswyr amgylchiadau meddygol rhesymol sy'n eu rhwystro rhag bod yn bresennol. Mewn rhai achosion, gall gofynion cyfreithiol neu reolaethol olygu nad yw'r dewis hwn ar gael.

Gwneir trefniadau i fyfyrwyr rhyngwladol a’r myfyrwyr hynny nad ydynt ar hyn o bryd yn byw yn y DU gael eu cyfweld ar-lein.

Cedwir at y canlynol yng nghyswllt y cyfweliadau:

• Bydd y cyfwelydd/wyr wedi derbyn hyfforddiant priodol ar gynnal prosesau denu a dethol sydd yn deg ac effeithiol, ac ar amcanion y broses gyfweld ar gyfer derbyn i’r radd Baglor mewn Gwyddor Milfeddygaeth (BVSc);

• Cynhelir y cyfweliad yn unol â Pholisïau Cyfle Cyfartal yr RVC a PA;

• Asesir pob ymgeisydd yn ôl set safonol o feini prawf, a llenwir ffurflenni asesu ar gyfer pob ymgeisydd.

Caiff ymgeiswyr wybod am ddyddiadau posib cyfweliadau trwy wefannau’r RVC a PA ar ddechrau pob cylch derbyn, er y gall y cyfryw ddyddiadau newid.

Bydd ymgeiswyr fel rheol yn cael o leiaf bythefnos o rybudd o ddyddiad eu cyfweliad er y gall achlysuron godi pan na fydd hyn yn bosib. Os na fedr ymgeisydd fod yn bresennol ar y dyddiad a roddwyd, cymerir camau rhesymol i ail-drefnu’r cyfweliad a lle nad oes modd gwneud hyn (e.e. os gwahoddir hwy i ddyddiad olaf y cyfweliadau am y flwyddyn), eglurir hyn i’r ymgeisydd. Oherwydd natur gystadleuol y cwrs, ni fydd modd fel arfer ail-drefnu cyfweliad fwy nag unwaith.

Os metha ymgeiswyr ag ymateb i wahoddiad i gyfweliad, bydd eu cais fel arfer yn cael ei dynnu’n ôl. Os metha ymgeiswyr â dod i’w cyfweliad ni fyddant fel arfer yn cael cynnig ail ddyddiad, oni allant ddarparu tystiolaeth o amgylchiadau lliniarol a’u rhwystrodd rhag bod yn bresennol. Os gwahoddir ymgeiswyr i fod yn bresennol ar ddyddiad olaf y cyfweliadau am y flwyddyn ac ni allant fod yn bresennol oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i’w rheolaeth (er enghraifft, gorfod mynd i’r ysbyty yn annisgwyl) cynigir cyfweliad arall lle bo modd. Os nad yw hyn yn bosib neu os na all yr ymgeisydd ddod i’r cyfweliad arall, caiff gyfle i ail-ymgeisio y flwyddyn ganlynol heb gosb. Pan dderbynnir y cais, cynigir gwarant o gyfweliad, ar yr amod y bydd yn bodloni’r meini prawf derbyn cyhoeddedig. Bydd darpariaeth o’r fath yn gymwys yn unig lle’r oedd yr ymgeiswyr wedi ymrwymo i fod yn bresennol ond wedi eu hatal rhag gwneud hynny, a bydd angen tystiolaeth i gefnogi hyn. Ni dderbynnir gwyliau, mynd i ddyddiau cyfweliad eraill, nac amgylchiadau tebyg.

Lle mae angen i ymgeisydd gael unrhyw addasiadau neu drefniadau arbennig mewn cyfweliad, cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw cysylltu â Swyddfa Dderbyn yr RVC wedi derbyn gwahoddiad i gyfweliad, i drafod y rhain ymhellach. Ni ellir gwneud trefniadau neu addasiadau ond ar ôl cael trafodaethau gyda’r ymgeisydd a, lle bo’n gymwys, â Gwasanaethau Anabledd yr RVC a Gwasanaethau Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth; ni ellir eu gwneud ar sail gwybodaeth a ddarperir yn y cais yn unig. Cadwn yr hawl i ofyn am ddogfennaeth ychwanegol i gefnogi cais am addasiadau, megis asesiad Anghenion Addysgol Arbennig (AAA). Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol y gall fod cyfyngiadau ar yr addasiadau y gellir eu gwneud.

Ad-delir cyfraniad at y costau a ddaw i ran ymgeiswyr wrth deithio i gyfweliad ym Mhrifysgol Aberystwyth yn unol â’r cyfraddau a adolygir ac a gadarnheir bob blwyddyn. Rhoddir manylion am y rhain pan wahoddir ymgeiswyr i gyfweliad.

**Trefniadau i Ymgeiswyr sydd dan 18 oed**

Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn yr RVC a PA yn 18 oed neu'n hŷn, ac y mae bywyd academaidd ac amgylchedd cymdeithasol y naill sefydliad a'r llall yn adlewyrchu hyn. Fodd bynnag, yr ydym yn cydnabod fod rhai unigolion sydd eisoes wedi bodloni gofynion mynediad y rhaglen mewn sefyllfa lle y gallant gychwyn ar eu hastudiaethau prifysgol ar oedran iau.

Argymhellwn yn gryf fod ymgeiswyr a fydd dan 17 oed pan ddeuant i'r brifysgol yn ystyried yn ofalus a fyddai modd iddynt fanteisio'n llawn ar y cyfleoedd addysgol a chymdeithasol sydd yn cael eu cynnig.

Rhaid i ymgeiswyr fydd dan 18 oed ar ddyddiad cychwyn cyhoeddedig y rhaglen, a'u rhieni/gwarcheidwaid, gwblhau Cytundeb Dan 18 fel amod o'u cynnig, sydd yn cadarnhau'r canlynol:

• eu bod yn deall natur y Prifysgolion y maent yn ymgeisio iddynt a'r rhaglen, yr amgylchiadau lle bydd yr unigolyn yn astudio ac yn byw, a chyfyngiadau swyddogaeth oruchwyliol yr RVC a PA;

• fod y trefniadau contractaidd i'r unigolyn astudio am radd Baglor mewn Gwyddor Milfeddygaeth (BVSc) wedi eu gwarantu gan unigolyn cymwys o statws oedolyn;

• y byddai trefniadau ar waith i gynorthwyo'r unigolyn mewn argyfwng, gan gynnwys presenoldeb person cymwys yn y DU a fyddai'n fodlon i weithredu fel gwarcheidwad;

• y bydd yr unigolyn yn ufuddhau i'r cyfyngiadau mae cyfraith Cymru/Lloegr yn eu gosod ar blant dan oed.

**Ymgeiswyr ag Euogfarnau Troseddol**

Mae gradd Baglor mewn Gwyddor Milfeddygaeth (BVSc) yn arwain at gymhwyster mewn proffesiwn sy'n dod dan y Cynllun Galwedigaethau Hysbysadwy. Rhaid i bob milfeddyg ddatgelu unrhyw rybudd neu euogfarn, gan gynnwys rhyddhad absoliwt ac amodol neu ganlyniadau anffafriol, boed yn y DU neu dramor (ac eithrio am fân droseddau sydd wedi eu heithrio rhag eu datgelu) i'r RCVS ar yr adeg gofrestru ac unrhyw euogfarnau newydd yn flynyddol. Rhaid i filfeddygon hefyd ddatgelu unrhyw euogfarnau sydd wedi darfod.

Yn unol â phrotocolau'r RCVS, fel rhan o'r broses dderbyn, bydd gofyn i bob ymgeisydd am radd Baglor mewn Gwyddor Milfeddygaeth (BVSc) ddatgan unrhyw euogfarnau troseddol perthnasol. Diffinnir euogfarnau troseddol perthnasol fel: yr euogfarnau hynny am droseddau yn erbyn y person, boed o natur dreisgar neu rywiol, ac euogfarnau am droseddau sy'n golygu cyflenwi yn anghyfreithlon gyffuriau neu sylweddau rheoledig lle mae a wnelo'r euogfarn â masnachu neu ddelio cyffuriau yn fasnachol. Rhaid i ymgeiswyr hefyd ddatgelu unrhyw euogfarnau sydd wedi darfod.

Bydd gofyn i ymgeiswyr ddarparu'r wybodaeth hon fel amod o'u cynnig. Ni fydd gofyn iddynt ddarparu hyn cyn derbyn cynnig er y gallant gysylltu â Swyddfa Dderbyn yr RVC petaent am drafod eu sefyllfa cyn gwneud cais.

Gofynnir i unrhyw ymgeisydd sy'n datgan euogfarn droseddol fel rhan o'r broses dderbyn ddarparu mwy o wybodaeth am y drosedd/troseddau. Caiff y datganiad wedyn ei asesu gan banel perthnasol i'r cwrs y gwnaeth gais amdano, a gynullir gan Bennaeth Derbyn yr RVC ac a fydd yn cynnwys cynrychiolaeth o PA. Bydd y panel yn ystyried a fydd yr ymgeisydd yn gallu gweithio yn y proffesiwn wedi cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus, ac efallai y gofynnir i'r RCVS am gyfarwyddyd.

**Ymgeiswyr ag Anableddau neu Wahaniaethau Dysgu**

Dylai'r holl ymgeiswyr ddatgelu unrhyw anabledd dysgu neu wahaniaeth dysgu ar eu cais fel bod yr RVC a PA yn ymwybodol o'r gefnogaeth sydd ei hangen cyn gynted â phosib. Seilir ystyriaeth i ymgeiswyr anabl ar yr un meini prawf ac egwyddorion ag ar gyfer ymgeiswyr eraill. Cynlluniwyd dyddiau cyfweld/dethol i fod yn hygyrch i bawb ac felly, os bydd ymgeiswyr a ddatgelodd anabledd yn cael eu gwahodd i gyfweliad, gwneir addasiadau, lle mae hynny'n rhesymol, trwy ymgynghori â Swyddog Anabledd yr RVC a Gwasanaethau Hygyrchedd PA (gweler yr adran am gyfweliadau uchod am fwy o wybodaeth). Rhaid i ymgeiswyr sydd ag angen addasiadau neu gymorth wrth ddod i gyfweliad/diwrnod dewis, neu Ddiwrnod Ymweld neu Ddiwrnod Agored, gysylltu â Swyddfa Dderbyn yr RVC i drafod eu hanghenion cyn y diwrnod er mwyn medru gwneud y trefniadau angenrheidiol.

Lle bo modd, gwneir addasiadau rhesymol i ymgeiswyr ag anableddau neu wahaniaethau dysgu ar y cyd â Chanolfan Gynghori'r RVC i'w galluogi i gwblhau'r cwrs yn llwyddiannus. Fodd bynnag, anogir ymgeiswyr sydd ag angen addasiadau a chefnogaeth bellach gysylltu â Chanolfan Gynghori'r RVC i drafod y rhain ymhellach yng nghyswllt gofynion yr RCVS, ffitrwydd i ymarfer a Chymwyseddau'r Diwrnod Cyntaf.

**Ceisiadau Twyllodrus a Chamarweiniol**

Ceidw'r RVC a Phrifysgol Aberystwyth yr hawl i ganslo unrhyw gais os darganfyddir ei fod yn cynnwys gwybodaeth dwyllodrus neu gamarweiniol. Os gwnaed cynnig lle, tynnir y cynnig yn ôl. Os bydd ymgeiswyr yn gadael unrhyw wybodaeth berthnasol allan o'u cais, cadwn yr hawl i drin hwn fel cais twyllodrus a thrwy hynny ganslo'r cais a thynnu'n ôl unrhyw gynnig lle.

Mewn achosion lle ceir hysbysiad fod ymgeiswyr wedi ei hamlygu gan wasanaeth canfod tebygrwydd UCAS, parheir i asesu eu cais dan y broses asesu safonol. Cysylltir â'r cyfryw ymgeiswyr a'u hysbysu o natur ddifrifol llên-ladrad a bydd nodyn yn aros ar y ffeil, ond ni chymerir unrhyw gamau pellach.

Gofynnir i ymgeiswyr fel arfer ddarparu tystiolaeth o'u cymwysterau, fel y datgenir ar eu ffurflen gais, naill ai yn y cyfweliad neu adeg cofrestru. Caiff y gofyniad hwn ei hepgor os dilyswyd eu cymwysterau eisoes gan UCAS. Ni fydd unrhyw ymgeiswyr na fedrant roi tystiolaeth o'u cymwysterau pan ofynnir amdanynt yn cael cofrestru.

Os gwelir wedyn fod myfyrwyr wedi ennill lle ar radd Baglor mewn Gwyddor Milfeddygaeth (BVSc) ar sail gwybodaeth dwyllodrus, datgenir ee cofrestriad yn ddi-rym a gallant wynebu prosesau disgyblu.

Ni dderbynnir unrhyw geisiadau wedyn i astudio am radd Baglor mewn Gwyddor Milfeddygaeth (BVSc) gan unigolion y canfuwyd iddynt gyflwyno gwybodaeth dwyllodrus o'r blaen, a gwrthodir ceisiadau o'r fath.

**Amgylchiadau Lliniarol/Esgusodol**

Dylai unrhyw ymgeiswyr sy'n teimlo bod ganddynt amgylchiadau lliniarol/esgusodol sydd angen eu datgelu wneud hynny, mewn llythyr at Reolwr Derbyn yr RVC, gan ofalu bod unrhyw wybodaeth berthnasol i gefnogi hyn (e.e. dogfennaeth feddygol) yn cael ei hamgáu. Lle bo'r amgylchiadau lliniarol/esgusodol yn ymwneud â chymhwyster neu ei ganlyniadau, dylai'r ymgeiswyr gynnwys llythyr gan yr ysgol neu'r coleg yn ychwanegol at unrhyw wybodaeth gefnogol bellach.

Dylai ymgeiswyr sicrhau yr hysbysir y bwrdd arholi perthnasol am unrhyw amgylchiadau lliniarol/esgusodol, cyn i'r canlyniadau gael eu cyhoeddi, a hefyd hysbysu Rheolwr Derbyn yr RVC. Efallai na fydd modd ystyried unrhyw amgylchiadau lliniarol/esgusodol a ddatgelwyd ar ôl i'r canlyniadau gael eu cyhoeddi.

Cadwn yr hawl i ragdybio fod y bwrdd arholi perthnasol wedi ystyried amgylchiadau lliniarol/esgusodol a bod addasiadau priodol felly wedi eu gwneud a'u bod wedi eu hadlewyrchu yn y canlyniadau. Gallwn roi ystyriaeth bellach i amgylchiadau lliniarol/esgusodol ymgeisydd pan geir y canlyniadau, os methodd yr ymgeisydd o drwch blewyn â chyrraedd y safon oedd ei hangen ar gyfer y cynnig, ond nid oes gwarant y newidir penderfyniad o'r herwydd.

**Apeliadau Ail-farcio ac Arholiadau**

Dylai ymgeiswyr sydd wedi gwneud cais am ail-farcio neu apêl gyda chorff dyfarnu roi gwybod i Reolwr Derbyn yr RVC rhag blaen. Er y gwnawn bob ymdrech i ail-ystyried ymgeiswyr y newidir eu graddau o ganlyniad i ail-farcio llwyddiannus, efallai na fydd modd bob tro cadw cynnig ar agor tra disgwylir canlyniad apêl.

Os bydd ail-farcio yn llwyddiannus, a bod y cwrs y gwnaed cais amdano yn llawn, gellir cynnig lle gohiriedig i ymgeisydd.

## 6. Statws Ffioedd

Fel rhan o'r broses ddethol gychwynnol, asesir yr holl ymgeiswyr i bennu eu statws ffioedd ar sail y wybodaeth a ddarparwyd yn eu cais. Pennir statws ffioedd gan reolau a osodwyd gan Lywodraeth y DU, ac y mae canllawiau manwl am y rhain i'w cael ar wefan Cyngor y DU ar Faterion Myfyrwyr Tramor (UKCISA).

Lle nad oes modd pennu statws ffioedd ymgeisydd o'r wybodaeth a ddarparwyd yn y cais, efallai y gofynnir i'r ymgeisydd lenwi holiadur statws ffioedd. Fel rheol, cysylltir ag ymgeiswyr cyn cyfweliad i bennu a datrys eu statws ffioedd. Lle nad yw ymgeisydd yn ymateb i'n cais i lenwi holiadur statws ffioedd, efallai bydd y cais yn cael ei dynnu'n ôl (a'r cynnig lle, os yw'n berthnasol).

Bydd gofyn i'r holl ymgeiswyr ddarparu copi o'u pasbort fel rhan o'u cais statws ffioedd i gadarnhau eu cenedligrwydd. Rhaid cael tystiolaeth berthnasol i gefnogi cais am statws ffioedd Cartref. Lle na all ymgeisydd ddarparu tystiolaeth i gefnogi hyn, cadwn yr hawl i bennu mai talwr ffioedd tramor yw'r ymgeisydd.

Unwaith i'r mater gael ei ddatrys, hysbysir ymgeiswyr o'r statws ffioedd a aseswyd, yn ysgrifenedig (fel arfer trwy e-bost). Petai ymgeisydd am apelio yn erbyn y penderfyniad hwn, dylai wneud hynny yn ysgrifenedig, o fewn 14 diwrnod o'r hysbysiad a chyn derbyn unrhyw gynnig. Dylid cyfeirio apeliadau o'r fath at Swyddfa Dderbyn yr RVC. Rhaid i unrhyw apêl amlinellu'r sail sy'n peri i'r ymgeisydd gredu bod y penderfyniad yn anghywir (gan gyfeirio at y canllawiau perthnasol) a darparu tystiolaeth (os yw'n briodol) i gefnogi hyn. Os bydd ymgeisydd yn apelio wedi i'r 14 diwrnod fynd heibio ac yr adolygir y penderfyniad, efallai y bydd y cais yn cael ei ail-asesu, ac efallai y bydd y cynnig yn cael ei newid neu ei dynnu'n ôl.

Lle nad ofynnir i'r ymgeisydd lenwi holiadur statws ffioedd ond y cred fod yr asesiad ffioedd, y manylir arno yn ei l/llythyr cynnig, yn anghywir dylai hysbysu Swyddfa Dderbyn yr RVC. Rhaid

gwneud hyn yn ysgrifenedig, ymhen 14 diwrnod a chyn derbyn unrhyw gynnig. Os adolygir y penderfyniad o ganlyniad i wybodaeth na ddarparwyd ar y cais cychwynnol, efallai y bydd y cais yn cael ei ail-asesu, ac efallai bydd y cynnig yn cael ei newid neu ei dynnu'n ôl.

Dylai ymgeiswyr hysbysu Swyddfa Dderbyn yr RVC rhag blaen os bydd eu hamgylchiadau yn newid (neu'n debygol o newid) a allai gael effaith ar eu hasesiad ffioedd. Petai ymgeiswyr yn darparu gwybodaeth a all arwain at newid yn asesiad ei statws ffioedd, gofynnir iddynt lenwi holiadur statws ffioedd i bennu pa ffioedd y dylent eu talu. Os adolygir y statws ffioedd ar sail gwybodaeth newydd neu bellach a ddarperir gydag adolygiad, efallai y bydd y cais yn cael ei ail-asesu, ac efallai y bydd y cynnig yn cael ei newid neu ei dynnu'n ôl.

Nid yw'n bosib i asesiad statws ffioedd myfyrwyr newid ar ôl iddynt gofrestru ar y cwrs, oni fydd eu hamgylchiadau yn newid, yn unol â'r hyn a ganiateir gan y rheolau a osodwyd gan Lywodraeth y DU.

## 7. Data Cyd-destunol

Mae'r RVC a Phrifysgol Aberystwyth wedi ymrwymo i gymryd agwedd holistig at asesu ymgeiswyr, i'n galluogi i nodi'r rhai sydd â'r potensial i lwyddo. Mae gwybodaeth gyd-destunol yn rhoi i ni wybodaeth am amgylchiadau addysgiadol a chymdeithasol-economaidd ymgeiswyr, ac yn caniatáu i ni roi ystyriaeth i'r heriau a wynebwyd ganddynt yn ystod eu haddysg, ac effaith bosib y rhain ar eu perfformiad .

O'r herwydd, gellir ystyried data cyd-destunol yng nghyswllt myfyrwyr cartref (y DU) sy'n byw yn y DU ac sy'n gwneud cais am raglenni israddedig. Bydd amgylchiadau myfyrwyr rhyngwladol sy'n ysbarduno unrhyw ddangosyddion data cyd-destunol yn cael eu hystyried fesul achos unigol, ac mae hyn y tu allan i gwmpas y polisi hwn.

Mae'r egwyddorion a'r datganiadau o fwriad isod yn ymwneud â sut y defnyddir data cyd-destunol yn y broses dderbyn:

• Nid oes cwotâu ar gyfer recriwtio myfyrwyr o unrhyw gefndir penodol. Er bod gan yr RVC gerrig milltir y cytunir arnynt gyda'r Swyddfa Fyfyrwyr o ran denu a chadw myfyrwyr, ac o ran perfformiad myfyrwyr o amrywiaeth o gefndiroedd, ac er bod gan PA dargedau a osodir fel rhan o'r Cynllun Ffioedd, ni ddefnyddir y rhain fel cwotâu yn y broses dderbyn;

• Defnyddir data cyd-destunol dim ond i ategu a chyfoethogi mecanweithiau dethol sydd eisoes yn bodoli, gan gynnwys ystyried cymwysterau academaidd, ac nid yw'n cymryd lle'r dulliau hyn;

• Defnyddir data cyd-destunol fel rhan o'r ystyriaeth gyffredinol a roddir i ymgeisydd ac nid ar ei ben ei hun; defnyddir cyfuniad o wahanol eitemau o ddata cyd-destunol, yn ychwanegol at amrywiol ffactorau o'r cais, er mwyn cael asesiad holistig o botensial yr ymgeisydd am y cwrs y gwnaeth gais amdano;

• Mae data cyd-destunol yn cyfrannu at yr asesiad proffesiynol sydd, yn y pen draw, yn penderfynu a roddir gwahodd i gyfweliad ac a wneir cynnig lle yn sgil hynny, ond nid yw'n goresgyn yr asesiad hwnnw;

• Nid yw'r ffaith bod yr amgylchiadau'n bodloni unrhyw elfennau sy'n sbarduno data cyd-destunol y radd Baglor mewn Gwyddor Milfeddygaeth (BVSc) yn golygu o reidrwydd y rhoddir gwahoddiad i gyfweliad na chynnig lle ar gwrs;

• Mae'r holl staff derbyn sy'n defnyddio data cyd-destunol i wneud penderfyniadau yn cael eu briffio'n llawn a sicrheir eu bod yn ymwybodol o'r materion ynghylch data cyd-destunol er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn deall y data ac y gallant ei ddehongli'n briodol;

• Gall data cyd-destunol gael ei ddefnyddio fel rhan o'r broses o bennu a ddylid derbyn ymgeisydd nad yw wedi bodloni telerau'r cynnig, yn yr haf, unwaith i'r canlyniadau gael eu rhyddhau ac os bydd llefydd gwag ar y cwrs;

• Bydd yr RVC a Phrifysgol Aberystwyth yn parhau i adolygu eu polisïau o ran defnyddio data cyd-destunol ac yn diweddaru'r datganiad polisi hwn pan gytunir ar newidiadau. Wrth wneud hynny, byddwn yn cyfeirio at bwyntiau cyfeirio allanol perthnasol.

**Defnyddio data cyd-destunol**

Bydd yr holl ymgeiswyr yn cael eu sgrinio ar adeg yr asesu i weld, ar sail y wybodaeth a ddarparwyd ar eu ffurflen UCAS, a yw unrhyw rai o'r dangosyddion cyd-destunol yn gymwys iddynt hwy. Os methodd ymgeisydd â datgan unrhyw wybodaeth ar ei ffurflen UCAS a ddefnyddir i bennu a yw yn bodloni'r sbardun data cyd-destunol, ni all hyn gael ei ystyried oni fydd ei ffurflen UCAS yn cael ei newid wedyn. Tan hynny, ystyrir nad yw'r ymgeisydd yn bodloni'r sbardun hwnnw. Lle bo modd, byddwn yn ail-asesu ymgeisydd sydd yn datgan gwybodaeth yn nes ymlaen a all danio dangosydd data cyd-destunol; fodd bynnag, mae hyn yn amodol ar fod llefydd gwag ar ôl o hyd ar y cwrs;

Mae'r dangosyddion data cyd-destunol isod yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd fel rhan o'n prosesu asesu:

- Ysgol Gyd-destunol
- Sgôr POLAR
- Incwm rhieni
- Ymadawyr gofal
- A yw'r rhieni wedi cael addysg uwch
- Gwella cyfleodd i astudio addysg uwch yng Nghymru

**Diffiniadau Data Cyd-destunol**

Ysgolion Cyd-destunol yr RVC

Pennir ysgolion cyd-destunol yr RVC ar lefel 2 ar sail y ganran o ddisgyblion sy'n cael 5 neu fwy o bynciau TGAU ar raddau A* i C/4 neu'n uwch, gan gynnwys Saesneg a Mathemateg, yn yr ysgol ynghyd â'r data cyfatebol yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. Bydd ysgolion yn cael eu rhestru fel rhai cyd-destunol os ydynt yn sgorio'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol yn y mesur hwn.

Pennir ysgolion cyd-destunol yr RVC ar lefel 3 ar sail sgôr cyfartalog y pwyntiau am bob cofnod academaidd, ynghyd â data cyfatebol yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. Bydd ysgolion yn cael eu rhestru fel rhai cyd-destunol os byddant yn sgorio'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol yn y mesur hwn. Bydd ysgolion cyd-destunol yr RVC ar lefel 2 a lefel 3 yn cael eu hasesu gan ddefnyddio tair blynedd diwethaf y data perfformiad sydd ar gael am bob lefel er mwyn lleihau effaith unrhyw

amrywiadau mewn data. Pennir y perfformiad 'cyfartalog' o gyfartaledd y sgôr ganrannol yn y flwyddyn fwyaf diweddar y mae data ar gael ar ei chyfer. Lle nad oes digon o ddata ar gael i alluogi canfod cyfartaledd tair blynedd, ystyrir y data sydd ar gael i weld a oes digon o gysondeb i wneud penderfyniad. Os nad yw'n bosib dod i benderfyniad, ni chaiff yr ysgol ei hystyried yn ysgol gyd-destunol. Mewn achosion o'r fath, gallwn ail-ystyried ein penderfyniad os gall yr ysgol ddarparu mwy o wybodaeth ynghylch yr anghysonderau.

Cyhoeddir rhestr o ysgolion cyd-destunol ar wefan yr RVC bob blwyddyn a bydd ar gael o'r mis Mai cyn i'r cylch ymgeisio agor (sef fel arfer y mis Medi 12 mis cyn cychwyn y cwrs). Bydd y rhestr hon yn berthnasol i ymgeiswyr sy'n gwneud cais yn y cylch ymgeisio hwnnw ar ôl cwblhau eu TGAU a'u lefelau A (neu'r hyn sy'n cyfateb) yn y blynyddoedd yn union cyn y cais. Lle safodd yr ymgeiswyr arholiadau am eu cymwysterau am gyfnod heb fod yn safonol, fe'u hystyrir yn ôl y data mwyaf priodol i'r flwyddyn pan wnaethant gwblhau eu cymwysterau a dylent gysylltu â'r Swyddfa Dderbyn am fwy o gyfarwyddyd. At ddibenion y diffiniad hwn, mae'r RVC yn disgwyl y bydd cyfnod astudio am TGAU a lefel A (neu'r hyn sy'n cyfateb) yn para dwy flynedd yr un. I gael eu hystyried o dan y categori cyd-destunol, dylai ymgeiswyr fod wedi astudio am ddwy flynedd lawn yn yr ysgol ac ar lefel briodol y cymhwyster. Lle nad yw ymgeisydd yn bodloni'r maen prawf hwn, ond eto wedi cwblhau'r ddwy flynedd o astudio mewn ysgolion yn y categori cyd-destunol yn unig, tybir y bydd hyn yn dderbyniol.

Sgôr POLAR

Pennir sgôr POLAR ymgeisydd gan ddefnyddio'r wybodaeth POLAR fwyaf cyfoes (POLAR4 ar hyn o bryd) o'r SM, ar sail y cyfeiriad cartref a ddarperir ar y cais UCAS. Am fwy o wybodaeth, gweler: https://www.officeforstudents.org.uk/data-and-analysis/young-participation-by-area/

Incwm Isel

Ystyrir bod ymgeiswyr yn bodloni'r meini prawf hyn os medrant ddangos asesiad a wnaed gan y llywodraeth o incwm yr aelwyd sy'n dangos eu bod yn derbyn budd-dal ar sail prawf modd. Ni ellir derbyn P60 a slipiau tâl fel tystiolaeth o incwm yr aelwyd am nad ydynt yn cadarnhau mai dyma gyfanswm incwm pawb sy'n byw ar yr aelwyd.

Er mwyn i incwm yr ymgeiswyr gael ei asesu, yn lle incwm y rhieni, rhaid bodloni diffiniad Cyllid Myfyrwyr Lloegr o fyfyriwr annibynnol a rhaid eu bod yn gymwys i'w hasesu gan Gyllid Myfyrwyr fel myfyriwr annibynnol. Mae mwy o wybodaeth yn https://www.gov.uk/student-finance/loans-and-grants

Ymadawyr Gofal

Mae'r RVC a Phrifysgol Aberystwyth wedi ymrwymo i ddiffiniad Ymddiriedolaeth Buttle o ymadawyr gofal. Dywedwn felly mai ymgeisydd a dderbyniodd ofal (mewn gofal) am o leiaf 13 wythnos ers ei 14 oed yw ymadawr gofal.

A yw'r rhieni wedi cael Addysg Uwch

Ymgeiswyr nad oes gan eu rhieni biolegol a/neu eu llys-rieni a/neu eu gwarcheidwaid unrhyw gymwysterau addysg uwch, megis gradd, diploma neu dystysgrif addysg uwch, a bod hyn wedi ei ddatgan ar eu cais UCAS. Lle bu dieithrio tymor-hir oddi wrth ail riant, llys-riant neu warcheidwad sydd â chymhwyster addysg uwch, byddwn yn ystyried unigolion fesul achos.

**Gwella cyfloedd i astudio addysg uwch yng Nghymru**

Mae'r RVC a Phrifysgol Aberystwyth wedi ymrwymo i gefnogi awydd Llywodraeth Cymru i wella cyfleoedd addysg uwch yng Nghymru ac, fel yr unig raglen gradd gwyddor milfeddygaeth yng Nghymru, i fodloni anghenion proffesiwn milfeddygaeth Cymru. O'r herwydd, gallwn gynnwys cymwysterau diwylliant Cymru a'r Gymraeg fel rhan o'r meini prawf asesu ar gyfer dewis, ond ni fydd y rhain yn golygu cynigion cyd-destunol am nad ydynt yn rhan o ehangu cyfranogiad.

## 8. Adborth a Chwynion

Mae'r RVC a Phrifysgol Aberystwyth wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth derbyn o safon uchel, deg a thryloyw i bob ymgeisydd. Yr ydym yn cydnabod, fodd bynnag, y bydd adegau pan fydd ymgeiswyr eisiau cael gwybod pam y gwrthodwyd eu cais neu fyddant o'r farn fod ganddynt sail dros gwyno. Nid oes gan ymgeiswyr hawl i apelio yn erbyn penderfyniad i beidio â chynnig lle iddynt am radd Baglor mewn Gwyddor Milfeddygaeth (BVSc).

Yn y cyd-destun hwn, diffinnir **adborth** fel yr ohebiaeth at ymgeisydd, ar gais yr ymgeisydd, na lwyddodd i gael cynnig lle. Diffinnir **cwyn** fel mynegiant o anfodlonrwydd naill ai â'r modd y triniwyd cais (gan gynnwys cyfweliad) neu ganlyniad y broses ddethol neu asesu ffioedd. Yn y naill achos a'r llall, gall ymwneud â gweithredu yn ystod y broses, neu ddiffyg gweithredu. Diffinnir **apêl** fel cais am adolygiad ffurfiol o ganlyniad penderfyniad derbyn.

### Adborth

Yr ydym wedi ymrwymo i roi i'r holl ymgeiswyr na lwyddasant i gael cynnig lle reswm dros y penderfyniad hwnnw.

Oherwydd nifer fawr y ceisiadau sy'n dod i law, nid oes modd rhoi adborth personol, manwl i bob ymgeisydd ar gais aflwyddiannus. Yr ydym yn gwneud pob ymdrech i ddarparu isafswm gofynion mynediad ar gyfer pob cwrs. Mae'r rhain i'w gweld yn ein Prosbectysau (papur ac ar-lein), ar ein gwefannau ac ar ein Proffil Mynediad UCAS am radd Baglor mewn Gwyddor Milfeddygol. Disgwyliwn i ymgeiswyr fod wedi darllen y wybodaeth sydd ar gael ynghylch gofynion mynediad a meini prawf asesu cyn gofyn am adborth pellach, gan y bydd hyn yn aml iawn yn esbonio pam y bu eu cais yn aflwyddiannus.

Caiff ymgeiswyr na lwyddasant i gael cynnig lle ar ein rhaglen israddedig ar ôl cyfweliad adborth ymhen chwe wythnos o wneud y penderfyniad. Bydd yr adborth yn rhoi gwybodaeth am eu perfformiad ym mhob tasg yn y cyfweliad fel bod modd iddynt weld lle y gallant gryfhau cais yn y dyfodol. Fel rheol, nid oes modd darparu unrhyw adborth pellach i ymgeiswyr ar eu perfformiad mewn cyfweliad.

Rhaid i geisiadau am adborth unigol pellach lle gwrthodwyd yr ymgeisydd cyn y cyfweliadau gael eu gwneud gan yr ymgeisydd a dylid eu hanfon i Swyddfa Dderbyn yr RVC ymhen 8 wythnos o hysbysiad am gais aflwyddiannus. Lle bo'n berthnasol, ceisir gwybodaeth bellach gan yr Adran Academaidd cyn rhoi adborth.

Mewn rhai achosion, bydd y diffyg llwyddiant i'w briodoli i lefel y gystadleuaeth am lefydd yn hytrach nag unrhyw wendid penodol mewn cais, ac felly ni fedrwn gynghori ymgeiswyr am sut i gryfhau unrhyw gais wedi hynny. Ym mhob achos, esbonnir i'r ymgeisydd, hyd yn oed os cyflwynir

cais arall, nad oes gwarant y gwneir cynnig hyd yn oed os bydd yr ymgeisydd yn ymdrin â'r pwyntiau a godwyd yn yr adborth. Caniateir i ymgeiswyr aflwyddiannus wneud un cais pellach am y BVSc (uchafswm o 2 gais i gyd). Ni fydd camwahaniaethu yn erbyn unrhyw ymgeisydd a wnaeth gais blaenorol nac yn erbyn neb a ofynnodd am adborth.

Ni dderbynnir ceisiadau am adborth gan drydydd parti ac ni ryddheir unrhyw wybodaeth yn ymwneud ag ymgeisydd unigol, hyd yn oed os cawsant eu henwi fel cyswllt priodol gan yr ymgeisydd.

Ni dderbynnir gohebiaeth bellach, ac ni chaiff y penderfyniad ei adolygu. Os teimla'r ymgeisydd na ddilynwyd y broses dderbyn yn gywir, rhaid defnyddio'r weithdrefn gwynion.

**Cwynion**

Nid oes gan ymgeiswyr hawl i apelio yn erbyn penderfyniad i beidio â chynnig lle iddynt ar y radd Baglor mewn Gwyddor Milfeddygaeth (BVSc). Ar yr amod y gellir dangos y daethpwyd i'r penderfyniad yn deg ac yn unol â'r meini prawf dewis cyhoeddedig am y cwrs, ni fydd y penderfyniad yn cael ei wrthdroi. Fodd bynnag, os cred ymgeisydd fod yr egwyddorion a'r gweithdrefnau derbyn i'r cwrs wedi eu cymhwyso'n anghyson neu yn anghywir, mae'r weithdrefn gwynion hon yn fodd o roi adolygiad gwrthrychol.

Ymgeiswyr unigol yn unig gaiff gyflwyno cwynion. Ni chânt eu gwneud gan gynrychiolydd, rhiant, ysgol nac unrhyw drydydd parti arall.

Mae'r weithdrefn hon yn gosod sut y gellir trin cwyn gan ymgeiswyr. Dylid sylweddoli fod modd trin y mwyafrif llethol o gwynion gan ymgeiswyr yn deg, yn gyfeillgar ac er boddhad i bawb dan sylw heb orfod mynd at y weithdrefn gwynion ffurfiol. Mae darpariaeth yn y weithdrefn gwynion ar gyfer camau anffurfiol a ffurfiol o ran trin cwyn. Ym mhob cam o'r broses, bydd yr unigolyn y cyfeiriwyd y gŵyn ato/i, os cadarnheir y gŵyn yn gyfan gwbl neu yn rhannol, yn cymryd y camau cywiro hynny sydd o fewn ei g/allu. Os ystyria fod y camau cywiro y tu hwnt i'w b/phwerau, dylai gyfeirio'r mater at yr awdurdod priodol. Os teimla na all gyflawni gofynion y weithdrefn gwynion yn wrthrychol oherwydd unrhyw gyswllt blaenorol â'r achos, dylai gyfeirio'r mater at un o'r gydweithwyr uwch.

I ddechrau, dylai ymgeiswyr sydd â chŵyn ei chodi'n anffurfiol gyda'r aelod perthnasol o staff yn Swyddfa Dderbyn yr RVC . Os na fydd hyn yn foddhaol, yna dylid dilyn y weithdrefn gwynion ffurfiol (gweler isod).

Byddwn yn ceisio sicrhau fod pob cwyn yn cael ei thrin yn o ddifri ac yn adeiladol. Fe geisiwn sicrhau hefyd fod cwynion yn cael eu trin yn brydlon, gyda thegwch a chysondeb a chan gadw mewn cof ein polisïau Cyfle Cyfartal. Os cadarnheir cwyn, fe fyddwn yn gweithredu neu'n cymryd y camau a fo'n briodol ac fe wnawn hynny yn brydlon. Os na chadarnheir cwyn, cyflëir y rhesymau dros y penderfyniad i'r ymgeisydd.

Ni cham-wahaniaethir yn erbyn unrhyw ymgeisydd sy'n gwneud cwyn. Gall ymgeiswyr sy'n cyflwyno cwyn a'r rhai y cwynir yn eu herbyn ddisgwyl i gwynion gael eu trin yn gyfrinachol a chan barchu eu preifatrwydd. Fodd bynnag, efallai y bydd angen datgelu gwybodaeth i eraill er mwyn delio â'r gŵyn.

Ni fydd cwynion dienw yn cael eu trin dan y weithdrefn hon. Bydd disgwyl i staff sy'n derbyn cwynion dienw ddefnyddio eu doethineb a'u barn ynghylch sut i drin cwynion o'r fath.

**Gweithdrefn gwyno ffurfiol**

Mae disgwyl i ymgeiswyr geisio cael datrys eu cwyn yn anffurfiol cyn iddynt ddilyn y weithdrefn gwynion ffurfiol. Ar y cychwyn, dylid cyfeirio cwynion fel rheol at Reolwr Derbyn yr RVC i'w datrys yn anffurfiol.

Os na chafodd cwyn ei datrys yn anffurfiol, dylai'r ymgeisydd ysgrifennu at Bennaeth Derbyn yr RVC, yn amlinellu natur y gŵyn, gyda'r manylion a'r camau a gymerwyd i ddatrys y gŵyn yn anffurfiol. Dim ond yn ysgrifenedig y ceir cyflwyno cwynion ffurfiol, ac nid dros y ffôn.

Rhaid gwneud y gŵyn fel rheol o fewn 14 diwrnod o'r camau (neu'r diffyg camau) a roes fod i'r gŵyn. Bydd Pennaeth Derbyn yr RVC yn ymchwilio i'r gŵyn trwy ymgynghori ag aelodau perthnasol y staff yn yr RVC a Phrifysgol Aberystwyth a bydd yn ymateb i'r gŵyn fel arfer o fewn 10 diwrnod gwaith o wneud y gŵyn. Bydd Pennaeth Derbyn yr RVC yn cadw cofnod o'r ohebiaeth ac unrhyw gamau a gymerwyd. Os bydd yn amhosib ymateb yn llawn ymhen 10 diwrnod gwaith, hysbysir yr achwynydd o'r amserlen ar gyfer derbyn ymateb llawn.

Os yw'r gŵyn yn ymwneud â'r ffaith nad yw cais wedi'i ddewis, rhaid i Bennaeth Derbyn yr RVC fod yn fodlon fod y cais wedi ei ystyried yn deg, a bod y penderfyniad wedi cydymffurfio â'r polisi dewis. Os ydynt yn fodlon fod hyn wedi digwydd, mae ymateb yn esbonio cyd-destun y penderfyniad (e.e. y galw am lefydd) a bod y polisi dewis a roddwyd ar waith yn dderbyniol ar y pwynt hwn.

Apelio yn erbyn canlyniad cwyn

Os nad yw'r ymgeisydd yn fodlon â'r ymateb a gafodd gan Bennaeth Derbyn yr RVC, dylai gyflwyno apêl ysgrifenedig at Gyfarwyddwr Mynediad yr RVC, ymhen 10 diwrnod gwaith o dderbyn yr ymateb. Dylai hyn roi manylion bras am y canlynol: natur y gŵyn; y camau anffurfiol a gymerwyd (os bu rhai); manylion yr ymateb a gafwyd; a datganiad ynghylch pam mae'r ymgeisydd yn anfodlon o hyd, a, heb ragfarnu unrhyw gam cywiro ffurfiol a all gael ei bennu, y cam cywiro y mae ei eisiau. Bydd Cyfarwyddwr Mynediad yr RVC yn ymchwilio i'r gŵyn ac yn cyflwyno ymateb ysgrifenedig i'r achwynydd, fel arfer ymhen 15 diwrnod gwaith o gael y gŵyn. Os bydd yn amhosib ymateb yn llawn ymhen 15 diwrnod gwaith, hysbysir yr ymgeisydd yn ysgrifenedig o'r amserlen ar gyfer derbyn ymateb llawn.

Ystyrir mai terfynol yw penderfyniad Cyfarwyddwr Mynediad yr RVC, ar ôl i'r broses hon gael ei chwblhau.

## 9. Data am Ymgeiswyr ac Ymholwyr

At ddibenion yr adran hon, diffinnir ymgeisydd fel rhywun a gyflwynodd gais am radd Baglor mewn Gwyddor Milfeddygaeth (BVSc) ac ymholydd fel rhywun a all fod â diddordeb mewn cyflwyno cais ond sydd heb wneud hynny eto.

I reoli a monitro ein prosesau derbyn yn llwyddiannus, mae angen i ni gasglu amrywiaeth o ddata personol gan ein hymholwyr a'n hymgeiswyr fel ei gilydd. Cesglir pob data yn unol â'n hymrwymiadau cyfreithiol. Mae manylion llawn i'w gweld yn ein Polisi Preifatrwydd Myfyrwyr, a gyhoeddwyd ar ein gwefannau.

Lle bo ymholwyr yn cysylltu naill ai â'r RVC neu PA i ofyn am wybodaeth am radd Baglor mewn Gwyddor Milfeddygaeth (BVSc), i gofrestru am ddiwrnod agored neu i gyflwyno cais am brosbectws, delir eu manylion (os byddant yn caniatáu) ar system reoli perthynas cwsmeriaid (CRM) yr RVC neu

PA fel bod modd monitro cynnydd ac er mwyn bod yn sail o wybodaeth i weithgareddau recriwtio neu ehangu cyfranogiad yn y dyfodol. Gall ymholwyr ddewis tynnu eu caniatâd yn ôl am hyn ar unrhyw adeg trwy e-bostio admissions@rvc.ac.uk neu enquiries@aber.ac.uk

Yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 1998, ni fyddwn yn trafod cais gyda neb ond yr ymgeisydd, oni fydd yr ymgeisydd wedi rhoi caniatâd ysgrifenedig i wneud hynny. Lle bo ymgeisydd wedi enwebu person a enwir ar ei ffurflen UCAS, derbynnir hyn fel caniatâd ysgrifenedig i siarad â'r person a enwir.

Cyfathrebir ag ymgeiswyr yn bennaf trwy ebost; fodd bynnag, gallwn hefyd cysylltu ag ymgeiswyr trwy lythyr, ar y ffôn neu mewn neges testun. Bydd diweddariadau am eu cais, lle bo modd, yn cael eu gwneud trwy offer Olrhain UCAS, yn ogystal â gohebiaeth uniongyrchol gan naill ai'r RVC neu PA.

Yr ymgeiswyr sy'n gyfrifol am ofalu am sicrhau bod eu manylion cyswllt yn gyfoes bob amser. Ni ellir ein dal ni'n gyfrifol am unrhyw negeseuon na dderbynnir oherwydd manylion cyswllt anghywir.